



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder


Ministry
of Justice

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Cynllun Iaith Gymraeg 2018

Cymeradwywyd gan Comisiynydd y Gymraeg 9 Ebrill 2018

Ministry of Justice Welsh Language Scheme 2018

Approved by the Welsh Language Commissioner 9 April 2018





Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r fersiwn ddiwygiedig hon o'n Cynllun Iaith Gymraeg corfforaethol, sy'n adeiladu ar sylfeini ein Cynllun blaenorol.

Rydym yn cymryd yr ymrwymiadau a'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun hwn o ddifrif. Fel adran, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg o ran sut rydym yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau.

Byddwn bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella sut rydym yn datblygu polisi a gwasanaethau a ddarperir i siaradwyr Cymraeg o ran gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Richard Heaton
Yr Ysgrifennydd Parhaol

Foreword

I am delighted to present this revised version of our corporate Welsh Language Scheme, which builds upon the foundations of our previous Scheme.

We take seriously the commitments and actions described in this Scheme. As a department we recognise the importance and value of the Welsh language in the way we need to design and deliver services.

We will continuously look for ways to improve our policy development and service provision for Welsh speakers in the administration of justice in Wales.

Richard Heaton
Permanent Secretary

Cynnwys

Rhagair	1
1. Cyflwyniad	3
2. Ein sefydliad	5
3. Datblygu a gweithredu polisi	7
4. Recriwtio	11
5. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd	15
6. Gweithredu, monitro a chyflwyno adroddiadau ar y cynllun	26
Atodiad A: Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a chyrff cyhoeddus	30
Atodiad B: System sgorio ar gyfer cyfieithu ffurflenni	32
Atodiad C: System sgorio ar gyfer cyfieithu dogfennau	38
Atodiad D: Cynllun gweithredu	44

Contents

Foreword	1
1. Introduction	3
2. Our organisation	5
3. Policy development and implementation	7
4. Recruitment	11
5. Provision of services to the public	15
6. Implementing, monitoring and reporting	26
Annex A: Partnership with agencies and public bodies	31
Annex B: Scoring system for translating forms	33
Annex C: Scoring system for translating documents	39
Annex D: Action plan	45

1. Cyflwyniad

- 1 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg ac amlinellu sut bydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i nodi yn y Ddeddf, rydym wedi ymgymryd i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg, a thrwy wneud hynny, mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder rwymedigaethau statudol dan y Ddeddf.
- 2 Mae'r Cynllun hwn yn disodli'r Cynllun cyntaf a baratowyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2010, ac mae'r Cynllun hwn wedi'i ddiwygio yn unol ag Adran 21 y Ddeddf. Mae'n amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 y Ddeddf sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 3 Mae'r Cynllun diwygiedig yn amlinellu sut bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i weithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdanynt. Nod y Cynllun hwn yw galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol.
- 4 O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd safonau statudol yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn rhoi dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad ar yr iaith Gymraeg.¹ Fodd

¹ Mae'n bosibl y bydd rhaid i rai sefydliadau neu bobl sy'n gweithredu swyddogaethau ar ran y Goron, gydymffurfio â safonau statudol a bydd Comisiynydd y Gymraeg yn eu hysbysu o'r bwriad i gynnal ymchwiliad i safonau iaith Gymraeg y sefydliadau hynny. <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents>

1. Introduction

- 1 The Welsh Language Act 1993 (the Act) gives the Welsh and English language equal status in public life in Wales. The Act requires specified public bodies providing services to the public in Wales to prepare a Welsh Language Scheme, setting out how it will provide those services in Welsh. Whilst MoJ is not specified, an undertaking has been given to prepare a Welsh Language Scheme, and by doing so MoJ has statutory obligations under the Act.
- 2 This Scheme replaces the first Scheme prepared by MoJ and approved by the Welsh Language Board in 2010 and has been revised in accordance with Section 21 of the Act. It sets out how MoJ gives effect to the principle in Section 5 of the Act that, in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.
- 3 The revised Scheme sets out how the MoJ will continue to give effect to that principle in the delivery of services to the public in Wales for which it is responsible. The aim of this Scheme is to enable everyone who receives a service from the MoJ in Wales, or who communicates with us, to do so through the medium of English or Welsh, according to their personal choice.
- 4 As a result of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, statutory standards will replace Welsh Language Schemes with some organisations being required to comply with one or more Welsh language standards of conduct.¹

¹ Some organisations or persons exercising functions on behalf of the Crown may be required to comply with statutory standards and receive notice from the Welsh Language Commissioner of their intention to carry out a Welsh language standards investigation. <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents>

bynag, fel Corff y Goron, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn diwygio ein Cynllun cyfredol er mwyn ei gryfhau. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod statws swyddogol yr Iaith Gymraeg fel sydd wedi'i ymgorffori yn y Mesur.

However, as a Crown Body, MoJ will continue to implement a Welsh Language Scheme, revising our existing Scheme in order to strengthen it. The Scheme also recognises the official status of the Welsh language as enshrined by the Measure.

2. Ein sefydliad

- 5 Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) yn darparu rhai o'r gwasanaethau mwyaf sylfaenol i'r cyhoedd, gyda'r adran yn gweithio'n uniongyrchol â dioddefwyr trosedd, tystion, pobl mewn trafferth, a throseddwyr. Rydym yn gyfrifol am nifer o wahanol rannau o'r system gyfiawnder – y llysoedd, y tribiwnlysoedd, y carchardai, gwasanaethau cyfreithiol a mynediad at wasanaethau cyfiawnder, cyfiawnder ieuencid a gwasanaethau prawf.
- 6 Mae ein gwaith yn trawsnewid bywydau troseddwyr ac yn rhoi dioddefwyr wrth wraidd y system gyfiawnder, sydd oll yn helpu i greu cymdeithas well a mwy diogel. Mae ein cylch gwaith yn cwmpasu cyfiawnder troseddol, sifil, teuluol, a gweinyddol. Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn y cyhoedd, lleihau aildroseddu a darparu system gyfiawnder troseddol effeithiol, tryloyw ac ymatebol, ar yr un pryd â chynnal rheolaeth y gyfraith a darparu cyfiawnder agored a hygyrch.
- 7 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n amlinellu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer busnes yr adran. Mae'r Cynllun yn cwmpasu meysydd a thimau busnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys swyddogaethau polisi, cyllid, dadansoddi, masnachol, caffael, Adnoddau Dynol, ystadau, TG a chyfathrebu'r adran.
- 8 Rydym yn adran weinidogol, a gefnogir gan bump o Asiantaethau Gweithredol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'n busnes a'n gwasanaethau i'r cyhoedd: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), a'r Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae gan bob un o'r cyrff cyflawni hyn eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain. Yn sgil eu lefel uchel o gyswilt uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru, mae cynlluniau Iaith Gymraeg yr asiantaethau hyn yn

2. Our organisation

- 5 MoJ delivers some of the most fundamental services to the public, with the department working directly with victims of crime, witnesses, people in trouble, and offenders. We are responsible for a number of different parts of the justice system – the courts, tribunals, prisons, legal services and access to justice, youth justice and probation services.
- 6 Our work transforms the lives of offenders and puts victims at the heart of the justice system, helping to create a safer and better society. Our remit spans criminal, civil, family, and administrative justice. We are committed to protecting the public, reducing reoffending and providing an effective, transparent and responsive criminal justice system, while upholding the rule of law and providing open and accessible justice.
- 7 Our Scheme is a corporate Scheme that sets the overall Welsh language framework for the department. The Scheme covers the business areas and teams in MoJ's corporate headquarters, including the department's policy, finance, analysis, commercial, procurement, HR, estates, IT and communications functions.
- 8 We are a ministerial department, supported by five Executive Agencies responsible for the delivery of the majority of our business and services to the public: Her Majesty's Courts and Tribunals Service (HMCTS), Her Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS), the Legal Aid Agency (LAA), the Office of the Public Guardian (OPG), and the Criminal Injuries Compensation Authority (CICA). Each of these delivery bodies has their own Welsh Language Scheme. Due to their enhanced level of direct contact with the public in Wales, these agencies' Welsh language schemes achieve either an equal or greater provision of Welsh

cyflawni darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth â darpariaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu'n rhagori arni. Rydym yn darparu gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr, ac i rai tribwlynsoedd heb eu datganoli yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth.

- 9 Er bod Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithredu o fewn canllawiau polisi eang a bennwyd gan weinidogion, mae'r gweithrediadau beunyddiol, gan gynnwys gweithredu mesurau Deddf yr Iaith Gymraeg, yn fater i Brif Weithredwr bob Asiantaeth unigol. Os nad oes gan Asiantaethau a Chyrff Hyd Braich y Weinyddiaeth Cyfiawnder Gynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain, byddwn yn rhannu ein Cynllun corfforaethol gyda nhw ac yn eu hannog i fodloni anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf.
- 10 Felly, mae'r cyfeiriadau at y 'Weinyddiaeth Cyfiawnder' a 'ni' yn y Cynllun hwn yn cyfeirio at bencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn unig ac nid ydynt yn cynnwys ein cyrff cyflawni.
- 11 Gellir canfod rhestr o'r cyrff sy'n bartneriaid i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Atodiad A. Dylid nodi bod y rhestr hon yn newid yn barhaus.
- 12 Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi mabwysiadu'r cynllun hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- 13 Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun hwn yn gyffredinol.

language services. We provide services across England and Wales, and certain non-devolved tribunals in Scotland and Northern Ireland. We also work in partnership with other government departments and agencies.

- 9 While MoJ's Executive Agencies operate within broad policy guidelines set by ministers, day to day operations, including the implementation of Welsh Language Act measures, are a matter for the Chief Executive of each Agency. Where MoJ Agencies and Arm's Length Bodies do not have their own Welsh Language Schemes, we will make our corporate Scheme available to encourage them to meet the needs of the Welsh-speaking public in Wales in accordance with the principles enshrined in the Act.
- 10 References in this Scheme to 'MoJ' and 'we', therefore, refer to MoJ's corporate HQ, and do not include our delivery bodies.
- 11 A list of the bodies partnered by MoJ can be found at Annex A. It should be noted that this list is subject to ongoing changes.
- 12 This scheme has been adopted by MoJ following public consultation including engagement and consultation with the Welsh Language Commissioner's office.
- 13 The permanent secretary of the MoJ has overall responsibility for the operation of this scheme.

3. Datblygu a gweithredu polisi


14 Fel un o adrannau'r llywodraeth, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fel arfer yn gyfrifol am gynghori gweinidogion ynghylch datblygu polisi a chynlluniau newydd, am rai swyddogaethau cefnogi a, dan rai amgylchiadau, am ddynodi natur y gwasanaethau i'w darparu gan eraill. Byddwn yn sicrhau bod staff a chynghorwyr sy'n rhan o lunio polisi a pharatoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn ystyried y cynllun hwn a'n rhwymedigaethau a chyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Wrth i ni ystyried a datblygu polisiâu, deddfwriaeth neu ddiwygiadau newydd, neu adolygu polisiâu cyfredol yn nhrefn arferol busnes polisi, byddwn yn:

- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn
- asesu effeithiau ieithyddol polisiâu sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru

3. Policy development and implementation

14 As a government department MoJ is typically responsible for advising ministers on the development of new policies and initiatives, for some support functions and in some circumstances in specifying the nature of services to be delivered by others. We will ensure that staff and advisers involved in policy formulation and the preparation of instructions for new primary and secondary legislation take into account this scheme and our obligations and responsibilities under the Welsh Language Act. As we consider and develop new policies, legislation or reforms, or review existing policies in the usual course of policy business, we will:

- promote and facilitate the use of Welsh in accordance with this Scheme
- assess the linguistic consequences of policies affecting services provided to the people in Wales



- cymryd camau i sicrhau nad yw polisïau newydd neu gyfredol yn rhwystro hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Gymraeg
- byddwn yn gofyn i staff ystyried anghenion yr iaith Gymraeg ar gychwyn y broses o lunio polisi yn ogystal ag ystyried dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010
- gweithredu'r egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle posib, yn unol â'r cynllun hwn
- cynghori gwneuthurwyr polisi i ymgymryd â Phrawf Effaith ar y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r broses o lunio polisi
- cynnwys Uned Iaith Gymraeg GLITEM lle bo angen i roi cyngor ar ganlyniadau ieithyddol posibl gweithredu polisïau sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru

15 Pan fydd polisïau yn cael eu gweithredu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn uniongyrchol, neu drwy drydydd partïon, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn modd sy'n trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal yng Nghymru, er enghraifft:

- cynorthwyo cyrff sy'n llunio rheolau, lle bo'n briodol, i ddiwygio rheolau, gweithdrefnau neu ffurflenni rhagnodedig i hwyluso'r defnydd o Gymraeg lle mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer pobl yng Nghymru
- sicrhau bod manylebau ar gyfer gwasanaethau sydd i'w cyflenwi gan sefydliadau eraill ar ein rhan yn cynnwys mesurau perthnasol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft:
 - y dylai gwybodaeth wedi'i hargraffu fel taflenni, dogfennau a pheccynnau gwybodaeth fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd, a/neu mewn fformat dwyieithog

- take steps to ensure that new and existing policies do not hinder the promotion and facilitation of the use of Welsh
- require staff to consider Welsh language needs at the outset of policy formulation in parallel with consideration of Equality Act 2010 duties
- implement the principle of equality at every opportunity, in accordance with this scheme
- advise policy makers to undertake a Welsh Language Impact Test during consultation as part of the policy making process
- involve the HMCTS Welsh Language Unit where necessary to provide advice on the potential linguistic consequences of policies affecting services provided in Wales

15 When policies are to be implemented by MoJ directly, or through third parties, we will ensure that those services are delivered in Wales in a way which treats the English and Welsh languages as equal, for example:

- assisting rule-making bodies where appropriate to amend rules, procedures or prescribed forms to facilitate the use of Welsh where the services are provided to people in Wales
- ensuring that specifications for services to be supplied by other organisations on our behalf include relevant measures relating to the use of Welsh, for example that:
 - printed information such as leaflets, documents and information packs should be available in both Welsh and English and/or in a bilingual format

- bod modd defnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn unrhyw ddigwyddiad² yng Nghymru ac mewn unrhyw fusnes arall gyda'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth. Gwahoddir cyfranogwyr i ddweud o leiaf bythefnos cyn digwyddiad os ydynt yn bwriadu siarad Cymraeg, er mwyn sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu'n cael eu trefnu.³

16 O ran datblygu a darparu systemau a chynnyrch TG, neu ddiweddarau hen rai, byddwn:

- o'r cychwyn cyntaf, yn asesu'r gofynion ieithyddol o ran y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru
- yn cymryd camau i atal unrhyw rwystrau o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Gymraeg lle bynnag y bo modd; ac yn gweithredu'r egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle posib yn unol â'r Cynllun hwn
- wrth ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, yn ystyried arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg Cymraeg a'r nodyn cyngor ar Egwyddorion Meddalwedd Dwyieithog

17 Nid yw pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, fel arfer, yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau penodol ar gyfer y cyhoedd. Darperir y rhain fel arfer gan ei chyrrff cyflawni, fel GLITEM, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) a'r Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol (CICA). Fodd bynnag, i sicrhau cysondeb, byddwn yn rhoi arweiniad i'r canghennau cyflawni o ran

² Mae digwyddiad yn golygu unrhyw gynhadledd, seminar neu gyfarfod sy'n cael cyhoeddusrwydd yng Nghymru.

³ Caiff gwasanaethau cyfieithu ar y pryd eu trefnu yn achos digwyddiadau lle nad oes angen i fynychwyr gofrestru ymlaen llaw, a phan fo'r pwnc a'r gynulleidfa a'u disgwyliadau'n awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen y gwasanaeth hwnnw.

- either language may be used at any event² in Wales and in any other business with the organisation providing the service – attendees are invited to say, at least two weeks in advance of an event, if they intend to speak Welsh so that interpreting facilities can be arranged³

16 On the development and delivery of IT systems and products, or the updating of old ones, we will:

- at the outset, assess the linguistic requirements in respect of services provided in Wales
- take steps to prevent any hindrance to the promotion and facilitation of the use of Welsh wherever possible; and implement the principle of equality at every opportunity in accordance with this Scheme
- in developing or procuring ICT systems, take into account the Welsh Language Commissioner's guidance on Welsh Language Technology and the advice note on the Principles of Bilingual Software

17 MoJ corporate HQ is not normally involved directly in the provision of specific services to the public, which are usually delivered by MoJ's delivery bodies, such as HMCTS, HMPPS, LAA, OPG and CICA. However, to ensure consistency, we will provide guidance to the delivery arms in the application of Welsh Language Schemes, where required. The MoJ Welsh Language Scheme sets a minimum standard for the delivery bodies.

² Event means any conference, seminar or meeting publicised to the public in Wales.

³ For events that do not require attendees to register beforehand and the subject matter, the anticipated audience and their expectations suggest that it is likely to be required, simultaneous translation will be arranged.

gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, lle bo angen. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gosod safon ofynnol i'r cyrff cyflawni.

18 Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, cyn belled ag y bo hynny o fewn ein cyfrifoldebau ac yn gymesur (o ran costau, amser ac adnoddau eraill), yn galluogi'r sefydliadau hyn i weithredu'r ymrwymadau a wnaed yn eu Cynlluniau drwy:

- gefnogi gwasanaethau i gael eu trefnu a'u darparu mewn modd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a'r cyhoedd
- ymgynghori â'r sefydliadau hyn, fel y disgrifiwyd uchod, wrth i ni ddatblygu polisiâu a chynlluniau, i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r goblygiadau o ddarparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru
- sicrhau bod y sefydliadau hyn yn mabwysiadu polisiâu, gweithdrefnau a chynlluniau iaith sy'n cydweddu â'r cynllun hwn ac yn cefnogi ei egwyddorion sylfaenol.

19 Byddwn yn ymgynghori (drwy'r Swyddfa Farnwrol) â'r Coleg Barnwrol, Barnwyr Llywyddol Cymru, Barnwr Cyswllt yr Adran Teulu, Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a (drwy GLITEM) Cyfarwyddwr Cyflawni Cymru GLITEM i sefydlu pa arweiniad sydd ei angen o ran ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar gyfer y barnwyr sy'n gwrando achosion yng Nghymru.

20 Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg ac yn ei gefnogi, fel sy'n briodol ac yn unol â'i gylch gorchwyl.

18 MoJ corporate HQ will, in so far as is within our responsibilities and is proportionate (in terms of cost, time and other resources) enable these organisations to implement the commitments made in their Schemes by:

- supporting services to be organised and delivered in a way which facilitates the use of Welsh by organisations and by the public
- consulting these organisations, as described above, as we develop policies and initiatives to ensure that full account is taken of the implications for the provision of these services in Wales
- ensuring these organisations adopt policies, procedures and language schemes which accord with this scheme and which support its underlying principles

19 We will consult (via the Judicial Office) the Judicial College, the Presiding Judges of Wales, the Family Division Liaison Judge, the Welsh Language Liaison Judges, the President of Welsh Tribunals and (via HMCTS) the HMCTS Delivery Director for Wales to determine what guidance may be needed in relation to the use of the Welsh language for the judiciary who hear cases in Wales.

20 We will also engage with and support the Lord Chancellor's Standing Committee on the Welsh Language, as is appropriate and in accordance with its terms of reference.

4. Recriwtio

Penodi staff

- 21** Wrth recriwtio ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru, caiff y swyddi eu hysbysebu'n ddwyieithog. Bydd hysbysiadau Cymraeg yn cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd, p'un ai a ydynt yn cael eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.
- 22** Mae'r system e-recriwtio 'World Careers Network (WCN)' bellach wedi'i gweithredu'n llwyr. Mae'r plattform WCN yn gallu dangos swydd ddisgrifiadau yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfer swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael y dewis i gael cyfweiliad yn y naill iaith neu'r llall. Yn achos swyddi sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, bydd y swydd ddisgrifiadau yn Saesneg yn ddiodyn, fodd bynnag, gall ymgeiswyr ofyn i'r swydd ddisgrifiad gael ei chyfieithu i'r Gymraeg ac fe'u hysbysir o hyn drwy ddatganiad sylfaenol sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn cais.

Penodiadau barnwrol

- 23** Bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol ac yn argymhell eu penodi, naill ai i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr neu Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel sy'n briodol (Deddf Trosedd a Llysoedd 2013). Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn egluro sut y caiff gofynion y Gymraeg eu cynnwys

4. Recruitment

Staff appointments

- 21** When recruiting for vacancies in Wales, these will be advertised bilingually. Notices will be in Welsh and placed in Welsh language publications. The Welsh and English versions will be equal in terms of format, size, quality and prominence, whether produced as a single bilingual version, or as separate Welsh and English notices.
- 22** The World Careers Network (WCN) e-recruitment system has now been fully implemented. The WCN platform can host job descriptions in both English and Welsh for jobs that are based in Wales. Candidates will also have the option to interview in either language. For jobs not based in Wales, job descriptions will be in English by default, however candidates are able to ask for the job description to be translated into Welsh and will be made aware of this via a standard statement within the application pack.

Judicial appointments

- 23** The Judicial Appointments Commission (JAC) selects candidates for judicial office and recommends them either to the Secretary of State and Lord Chancellor, the Lord Chief Justice of England and Wales or the Senior President of Tribunals for appointment as appropriate (Crime and Courts Act 2013). The JAC Welsh Language Scheme explains the JAC's application of Welsh language requirements in their selection



yn eu prosesau dethol. Mae Cynllun y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn nodi ei drefniadau ei hun o ran hysbysebu a sicrhau bod deunydd cais ar gael yn Gymraeg ar gyfer swyddi barnwrol ac/ neu ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

24 Mae Barnwyr Llywyddol Cymru, Barnwr Cyswllt yr Adran Teulu, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Barnwyr Tribiwnlysoedd, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd a Chyfarwyddwr Cyflawni Cymru GLITEM yn asesu'r cyflenwad barnwrol a'r angen am recriwtio barnwrol yng Nghymru yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, maent hefyd yn ystyried pryd fydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus feddu ar sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.⁴

25 Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol bellach wedi datblygu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n egluro sut mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn gweithredu gofynion yr iaith Gymraeg yn ei brosesau dethol. Mae Cynllun y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn nodi ei drefniadau ei hun o ran hysbysebu a sicrhau bod deunydd cais ar gael yn Gymraeg pan fydd swyddi barnwrol wedi'u lleoli yng Nghymru neu ar gael i ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

26 Y penodiadau a wneir fwyaf aml yng Nghymru yw penodi ynadon. Mae Pwyllgorau Ymgynghorol Lleol yn gyfrifol am recriwtio a dethol ynadon. Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol Lleol yn gweithredu'n annibynnol i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae'r ffordd y caiff ynadon eu recriwtio yng Nghymru yn golygu y bydd Pwyllgorau Ymgynghorol yng Nghymru yn gallu cyfeirio at unrhyw swyddi gwag penodol sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel maen prawf 'hanfodol'.

27 Bydd swyddi yn cael eu dynodi fel 'Iaith Gymraeg yn hanfodol' pan fydd angen cynyddu a/neu gynnal y gronfa o siaradwyr Cymraeg ar y fainc i sicrhau bod y llysoedd yn gallu cyflawni eu

⁴ Mae sgiliau iaith Gymraeg yn golygu y gallu i sgwrsio ac ysgrifennu'n rhugl ac yn rhwydd yn y Gymraeg.

processes. The JAC Scheme sets out its arrangements for advertising and for making application material available in Welsh where judicial posts involve vacancies and/or candidates based in Wales.

24 The Wales Presiding Judges, the Family Division Liaison Judge, the President of Welsh Tribunals, Tribunal Judges, the Senior President of Tribunals and the HMCTS Delivery Director for Wales regularly assess the judicial complement and need for judicial recruitment in Wales. In doing so, they also consider when successful candidates will be expected to have essential Welsh language skills.⁴

25 The JAC has now developed its own Welsh Language Scheme which explains the JAC's application of Welsh language requirements in their selection processes. The JAC Scheme sets out its arrangements for advertising and for making application material available in Welsh where judicial posts involve vacancies and/or candidates based in Wales.

26 The appointments most frequently made in Wales are appointments of magistrates. Local Advisory Committees are responsible for the recruitment and selection of magistrates. Local Advisory Committees operate independently of the JAC. The way in which magistrates are recruited in Wales means that Advisory Committees in Wales will be able to make specific reference to any vacancies that require Welsh language skills as an 'essential' criterion.

27 'Welsh language essential' vacancies arise when there is a need to increase and/or maintain the pool of Welsh speakers on the bench to ensure that the courts can discharge their statutory obligation under Section 22 of the Welsh

⁴ Welsh language skills means the ability to converse and write fluently and easily in the Welsh language.

rhwymedigaeth statudol dan adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg. Yn yr amgylchiadau hyn, mae gan Bwyllgorau Ymgynghorol Lleol Cymru yr hawl i hysbysebu bod yr 'iaith Gymraeg yn hanfodol' ar swyddi gwag y fainc – h.y. pan fydd gofyniad amlwg bod angen i ymgeiswyr allu deall a chyfathrebu yn ddigon rhugl yn Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r angen i lysoedd yng Nghymru sicrhau fod ganddynt niferoedd digonol o ynadon dwyieithog sy'n gallu cynnal gwrandawiadau llys a busnes arall yn ymwneud â'r llysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer swyddi ar y fainc lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol, ddarparu manylion canolwr fydd yn gallu tystio eu bod yn gallu deall Cymraeg a chyfathrebu ynddi yn rhugl.⁵

- 28** Mae ymarferion recriwtio ar gyfer swyddi barnwrol eraill hefyd yn cael eu gweinyddu gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Bydd y corff priodol sy'n gofyn am y penodiad hefyd yn ystyried p'un a yw'r gallu i gynnal achosion trwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil ddymunol ar gyfer ymgeisydd.⁶ Bydd natur a lleoliad y swydd benodol, yn ogystal â'r capasiti presennol i gynnal achosion yn Gymraeg, oll yn ffactorau perthnasol.

Language Act. In these circumstances the local Advisory Committees in Wales have discretion to advertise vacancies on the bench as being 'Welsh language essential' – i.e. when there is a clear requirement for applicants to be able to understand and converse sufficiently fluently in the Welsh language. This is in pursuance of the need for the courts in Wales to have sufficient numbers of bilingual magistrates who are able to conduct court hearings⁵ and other court-related business in the medium of the Welsh language. Candidates applying for consideration for Welsh-language essential vacancies on the bench will be asked to provide a referee able to comment on their ability to understand and converse fluently in the Welsh language.

- 28** Other judicial appointment exercises are also administered by the JAC. The appropriate body requesting the appointment will also consider whether the ability to conduct proceedings through the medium of Welsh would be a desirable attribute in a candidate.⁶ The nature and location of the particular post, and current capacity to conduct hearings in Welsh, will be relevant factors.

⁵ Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, neu Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn rhoi'r hawl i unigolion (diffynyddion, rheithwyr neu ymgyfreithwyr) gael treial neu wrandawriad cyfan yn y Gymraeg. Mae GLITEM wedi cyhoeddi arweiniad sy'n egluro bod darpariaethau Adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg yn nodi'n eglur ei bod yn rhoi'r hawl i unrhyw barti, tyst neu berson arall siarad Cymraeg, ond nid yw'n rhoi'r hawl i gynnal treial neu wrandawriad gyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mhob achos, bydd GLITEM yn canfod beth yw'r gofynion Cymraeg ar gyfer unrhyw elfen o dreial neu wrandawriad (tystion ayb.) ymlaen llaw, ac yn gwneud trefniadau yn unol â hynny.

⁶ Bydd y bobl neu'r cyrff gweinyddol sy'n rhan o'r ymarfer recriwtio yn gyfrifol am benderfynu p'un a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn 'sgil ddymunol' yn achos penodiadau barnwrol eraill yn yr adran; a bydd yn dibynnu ar y swydd wag benodol a'i gofynion. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd penodiad ar gyfer barnwr llywyddol neu farnwr preswyl, neu benodiad uwch farnwrol arall.

⁵ Neither the Welsh Language Act 1993 nor MoJ's WLS confers the right for individuals (defendants, jurors or litigants) to have a complete trial, or hearing conducted in Welsh. HMCTS has issued guidance clarifying that the provisions of Section 22 of the Welsh Language Act are quite clear in that it grants the right for any party, witness or other person to speak Welsh, but it does not confer a right for the complete process of a trial or hearing to be conducted in Welsh. In individual cases, HMCTS will ascertain in advance what the Welsh requirements are for any element of a trial or hearing (witnesses etc.) and make arrangements accordingly.

⁶ The persons or administrative bodies involved in the recruitment exercise will be responsible for determining whether the ability to speak Welsh is a 'desirable attribute' for other judicial appointment exercises within the department; and will be dependent on the particular vacancy and its requirements. For example the appointment may be for a presiding or resident judge or other senior judicial appointment.

Penodiadau cyhoeddus eraill

29 Os bydd penodiad anafnwrol yn codi yng Nghymru yn y dyfodol, bydd natur y swydd yn dylanwadu ar ba weithdrefn benodol i'w mabwysiadu ar gyfer y penodiad hwnnw.⁷ Byddwn yn ystyried, yn wyneb natur a lleoliad unrhyw swydd benodol, a ddylid mynd ati'n benodol i chwilio am ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith. Enghreifftiau o benodiadau cyhoeddus yw cadeiryddion ac aelodau'r Cyrff Hyd Braich (e.e. y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid neu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol).

Other public appointments

29 If a non-judicial appointment arises in Wales in future, the particular procedure to be adopted for the appointment will depend on the nature of the post.⁷ We will consider, in light of the nature and location of any particular post, whether specifically to seek Welsh-speaking candidates. Examples of public appointments are chairs and members of Arms-Length Bodies (e.g. the Youth Justice Board or the Judicial Appointments Commission).

⁷ Bydd y bobl neu'r cyrff gweinyddol sy'n rhan o'r ymarfer recriwtio yn gyfrifol am benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer penodi'r swyddi anafnwrol hyn a p'un a oes angen ceisio siaradwyr Cymraeg ai peidio. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar y swydd wag benodol ei hun a'r cyfrifoldebau cysylltiedig.

⁷ The persons or administrative bodies involved in the recruitment exercise will be responsible for deciding on the procedure for appointment for these non-judicial posts and whether or not to seek Welsh speakers. This will also be dependent on the particular vacancy itself and its responsibilities.

5. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Cyffredinol

- 30** Pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn, heblaw am rai eithriadau penodol, yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd y gwasanaethau hyn ar gael. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio ein gwasanaethau.
- 31** Pan fydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder corfforaethol yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, bydd y gwasanaeth o'r un safon a chysondeb a phan fydd yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg.

Gohebiaeth (post ac e-bost)

- 32** Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonir atom yn Gymraeg drwy bost copi caled neu e-bost o fewn yr un amserlen â phost copi caled ac e-bost eraill a ysgrifennir yn Saesneg. Rydym yn gweithio i amserlen o 15 diwrnod gwaith ar gyfer gohebiaeth gweinidogol a 20 diwrnod gwaith ar gyfer Cais Rhyddid Gwybodaeth. Rydym yn bwriadu defnyddio'r Uned Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, a byddwn yn rhoi arweiniad i staff ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.



5. Provision of services to the public

General

- 30** Where we deliver services to the public in Wales, we will, apart from certain exceptions, ensure our services are available in Welsh. We will let the public know when they are available. This will enable Welsh speakers to access our services.
- 31** Where corporate MoJ provides services in Welsh, it will deliver the same quality and consistency in the standard of service as it provides when that service is provided in English.

Correspondence (mail and email)

- 32** MoJ corporate HQ will aim to respond in Welsh to any correspondence sent to us in Welsh via hard copy mail or email within the same timescale as other hard copy mail and email correspondence written in English. We work to timescales of 15 working days for ministerial correspondence and 20 working days for a Freedom of Information request. We expect to use the Welsh Language Unit in HMCTS for translation services, and will keep staff regularly informed on the use of the translation service.

Galwadau ffôn

33 Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i leoli yng nghanol Llundain, gan fwyaf, a phrin iawn yw'r cyswllt uniongyrchol a gawn gyda'r cyhoedd. O'r herwydd, nid yw'n ymarferol neu'n gymesur i ni gynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg. Er hynny, rydym wrthi'n ymchwilio i sut y gallwn wella'r gwasanaeth hwn drwy ddarparu gwasanaeth lle mae unrhyw alwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn yr achos gyntaf.

Digwyddiadau

34 Pan fydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnal digwyddiadau yng Nghymru, hysbysebiri y rhain yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd, ac fe'i gwnawn hi'n glir y bydd croeso i gyfranogwyr gyfrannu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, gwnawn y canlynol:

- wrth hysbysebu'r digwyddiad, fe'i gwnawn hi'n glir y byddwn yn parchu hawliau'r bobl sy'n mynychu i siarad Cymraeg neu Saesneg
- gwahoddwn unrhyw un sy'n bwriadu bod yn bresennol i ddweud o leiaf bythefnos ymlaen llaw a ydynt yn bwriadu siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu'n cael eu trefnu
- rhown arweiniad i staff i'w helpu i benderfynu a oes angen trefnu cyfleusterau cyfieithu⁸ ai peidio, yng nghyswllt y pwnc i'w drafod, lleoliad y cyfarfod a phwy sy'n debygol o fod yn bresennol, yn ogystal ag a gafwyd unrhyw awgrym blaenorol y bydd cyfranogwyr yn defnyddio'r naill iaith
- trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad oes angen i fynychwyr y cyfarfod gofrestru ar gyfer y cyfarfod ymlaen llaw, a bod y pwnc a chynulleidfa ddisgwyliedig y cyfarfod a'u disgwyliadau'n awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen y gwasanaeth hwn

⁸ Mae'r cyfleusterau cyfieithu'n cynnwys cyfieithu deunydd y digwyddiad a/neu drefnu cyfieithydd ar y pryd.

Telephone calls

33 MoJ corporate HQ is mainly located in central London and has very limited direct contact with the general public. Therefore it is neither proportionate nor practicable for us to offer a Welsh Language telephone service. We are though, currently investigating how we might enhance this service by providing for the first response to a call by a Welsh speaker to be in Welsh.

Events

34 If MoJ corporate HQ holds events in Wales, these will be publicised in both Welsh and English and we will make it clear that participants will be welcome to contribute in Welsh and English. In order to assist with arrangements we will:

- make it clear when issuing notice of the event that we will respect the right of persons attending to speak in Welsh or English
- invite anyone proposing to attend to say at least two weeks in advance if they intend to speak Welsh so that interpreting facilities can be arranged
- issue guidance to staff to help them decide whether translation facilities⁸ are needed having regard to the subject to be considered, the location of the meeting and who is likely to attend, as well as whether there has been prior indication that both languages will be used by participants
- arrange simultaneous translation when a meeting does not require that attendees register beforehand and the subject matter, the anticipated audience of a meeting and their expectations suggests that it is likely to be required

⁸ Translation facilities include the translation of event materials and/or a simultaneous translator.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 35** Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn arddel hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog lawn ar holl ohebiaeth, dogfennau a chyhoeddiadau'r Weinyddiaeth sydd i'w defnyddio yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys teitl Cymraeg yr adran (*Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*). Bydd y dogfennau hyn hefyd ar gael ar dudalennau corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK: <https://www.gov.uk/moj>
- 36** Bydd unrhyw ohebiaeth gan yr adran at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ar bapur pennawd dwyieithog, boed y llythyr hwnnw wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg neu beidio.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

- 37** Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol am nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys adroddiadau, papurau polisi, canllawiau a thafenni ynghylch ein cyfrifoldebau ledled Cymru a Lloegr. Bydd cyhoeddiadau a ffurflenni ar gael ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru naill ai drwy dudalennau corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK neu fe'u dosberthir gan ein cyrff cyflawni ar ein rhan.
- 38** Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog os ydynt yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru neu'n berthnasol i Gymru gyfan, a lle mae'r system sgorio briodol yn Atodiadau B a C y cynllun hwn yn cyfiawnhau y dylid darparu cyfieithiad.
- 39** Os nad yw dogfennau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg lle mae'r system sgorio briodol a nodir uchod yn nodi nad oes angen eu cyfieithu, byddwn yn ystyried cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg ar gais (gan gynnwys y posibilrwydd o gwblhau un ai cyfieithiad llawn neu grynoded). Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y galw ac ail-ystyried ffactorau fel; os yw'r galw'n weddol fach h.y. disgwylir i'r cylchrediad fod yn gyfyng iawn (yn gyffredinol, dosbarthu llai na 50); neu lle mae'n cynnwys dogfennau technegol lle mae'r dosbarthiad wedi'i gyfyngu i'r

Corporate identity

- 35** MoJ corporate HQ will present a fully bilingual corporate identity on all MoJ correspondence, documents and publications to be used in Wales. This includes the Welsh form of the title for the department (*Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*). These documents will also be made available on the MoJ corporate pages of the GOV.UK website: <https://www.gov.uk/moj>
- 36** Any departmental correspondence addressed to a member of the public in Wales will be on bilingual headed paper, regardless of whether the letter is written in Welsh or not.

Publications and forms

- 37** MoJ corporate HQ is responsible for a number of publications, including reports, policy papers, guidance and leaflets relating to our responsibilities throughout England and Wales. Publications and forms will be available for the public in Wales either through the MoJ corporate pages on the GOV.UK website or will be distributed by our delivery bodies on our behalf.
- 38** MoJ will make publications available in Welsh or in a bilingual format where they are relevant to the public in Wales or have an all-Wales relevance and where the appropriate scoring system at Annexes B and C of this scheme indicate that a translation should be undertaken.
- 39** If documents have not been translated into Welsh where the appropriate scoring system referred to above has indicated that a translation is not required we will consider translating the document into Welsh on request (including the possibility of either a full or summary translation). This will however be dependent upon demand and re-consideration of factors such as; if there is only a small demand i.e. if circulation is expected to be very limited (generally, a distribution of less than 50); or where it involves technical documents

gymuned dechnegol; neu ddogfennau hir iawn (yn gyffredinol, y rheini sy'n hirach na 100 o dudalennau) sydd, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yn annhebygol o ennyn diddordeb neu ymateb eang.

40 Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod yr holl adroddiadau y bwriedir eu darparu yn Gymraeg yn cael eu hystyried ar gyfer fformat dwyieithog yn yr achos gyntaf, oni bai bod hyn yn peri i'r ddogfen fod yn anhwylyd. Os cânt eu paratoi fel dogfennau ar wahân, bydd y fersiwn Saesneg yn nodi'n glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

41 Oherwydd bod cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a gweithgareddau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol iawn, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i ddefnyddio system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg i asesu cyhoeddiadau a ffurflenni er mwyn penderfynu a ddylid darparu'r rhain yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog.⁹ Pan fydd y system sgorio'n cynorthwyo'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyfiawnhau darparu fersiwn Gymraeg, byddwn yn ymrwmo i ddarparu fersiwn PDF electronig, fydd ar gael i'w lawrlwytho. Mae'r systemau sgorio yn Atodiad B ac Atodiad C i'r Cynllun hwn.

42 Pan fydd fersiwn Gymraeg o ddogfen neu grynodedb yn cael ei chyhoeddi, gwnawn hynny'r un pryd â'r fersiwn Saesneg pan fo'r dyddiad cau yn caniatáu. Mewn achosion neilltuol, pan nad yw hyn yn bosib, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio cynhyrchu'r fersiynau Cymraeg cyn gynted â phosib ar ôl hynny ac yn bendant o fewn 10 diwrnod gwaith.

43 Pan fo angen, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynhyrchu ffurflenni i'w defnyddio

⁹ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012, ac o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, trosglwyddwyd nifer o gyfrifoldebau'r Bwrdd i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cadw system sgorio'r Bwrdd ar gyfer ffurflenni a chyhoeddiadau (gweler Atodiadau B a C).

where the circulation is restricted to the technical community; or very large documents (generally, those in excess of 100 pages) which, although available to the general public, are unlikely to elicit widespread interest and response.

40 MoJ corporate HQ will ensure that all reports that are to be available in Welsh are first considered for publication in a bilingual format unless this will render the document unwieldy. If produced as separate documents, the English language version will clearly state that the document is also available in Welsh.

41 As MoJ publications cover a wide variety of subject areas and activities and have very variable target audiences, MoJ corporate HQ will continue to use the Welsh Language Board's scoring systems for publications and forms to assist in determining whether to make these available in Welsh or in a bilingual format.⁹ Where the scoring system assists MoJ in determining that publication in Welsh is justified we will undertake to provide an electronic PDF version of this which will be available to download. The scoring systems can be found at Annex B and Annex C of this Scheme.

42 Where a Welsh version of a document or summary is issued, we will do so at the same time as the English language version where the deadline permits. In exceptional cases where this is not possible, MoJ will aim for the Welsh versions to be produced as soon as possible thereafter and certainly within 10 working days.

43 Where required, MoJ corporate HQ will produce forms for use in Wales in Welsh or in a bilingual format according to the

⁹ The Welsh Language Board was abolished on 31 March 2012, as a result of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and many of the Board's responsibilities passed to the Welsh Language Commissioner. The MoJ has retained the Board's scoring system for forms and publications (see Annexes B and C).

yng Nghymru yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog, ar sail system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd cyfieithu ar gais yn parhau i fod yn opsiwn. Pan fydd y system sgorio'n cyfiawnhau ffurflen Gymraeg, byddwn yn ymrwymo i ddarparu fersiwn PDF electronig ohoni y gellir ei golygu yn y rhan fwyaf o achosion, a bydd ar gael i'w lawrlwytho o dudalennau perthnasol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK. Pan fydd cyfyngiadau daearyddol yn atal unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau rhag gallu cael mynediad at GOV.UK, os gofynnir, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn anfon copi caled o'r ffurflen drwy'r post.

Datganiadau i'r wasg

- 44** Bydd datganiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, pan fydd y dyddiadau cau yn caniatáu hynny. Bydd y datganiadau i'r wasg hyn hefyd ar gael ar dudalennau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK. Byddwn yn ceisio cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Mewn achosion neilltuol, pan nad yw hyn yn bosib, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio cynhyrchu'r fersiynau Cymraeg cyn gynted â phosib ar ôl hynny ac yn bendant o fewn 5 diwrnod gwaith.

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu

- 45** Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn cyfathrebu â'r cyhoedd) yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a bydd yr un mor hawdd cael gafael arnynt â'i gilydd.
- 46** Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbyseb gyffredinol, nad yw at ddibenion recriwtio, byddwn yn cyhoeddi fersiwn ddwyieithog yn y wasg Gymraeg os yw'n ymwneud â:

Welsh Language Board's scoring system for forms. Translation on request will remain an option. Where the scoring system justifies a Welsh translated form we will undertake to provide an electronic PDF version which in most cases will be editable, and available to download from the relevant MoJ pages on the GOV.UK website. Where geographical restrictions prevent any service users from accessing GOV.UK, if requested, the MoJ will send a hard copy of the form by post.

Press notices

- 44** Press releases to the Welsh language press and broadcasting media in Wales will be issued in Welsh where deadlines permit. These press notices will also be made available on the MoJ pages of the GOV.UK website. We will aim to publish the Welsh and English versions at the same time. In exceptional cases where this is not possible, MoJ will aim for the Welsh versions to be produced as soon as possible thereafter and certainly within 5 working days.

Publicity campaigns and advertising

- 45** All of the publicity, public information, exhibition and advertising material we use in Wales (in order to communicate with the general public) will be produced fully bilingually, or as separate Welsh and English versions. If the Welsh and English versions have to be published separately, both versions will be equal with regard to size, prominence, and quality. Both versions will be available simultaneously and will be equally accessible.
- 46** When we issue a general advertisement that is not for recruitment purposes, we will issue a bilingual version in the Welsh press if it relates to:

- materion o bwys sylweddol i Brydain Fawr yn ei chyfanrwydd
- materion o ddiddordeb penodol yng Nghymru

Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus

- 47** Bydd pob hysbysiad swyddogol a hysbysiad cyhoeddus a gyhoeddir neu a osodir mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Gwasanaethau digidol, gwefan a gwybodaeth

- 48** Mae holl wefannau adrannau'r llywodraeth wedi'u cyfuno ar wefan GOV.UK sy'n cael ei rheoli gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth¹⁰ (GDS, rhan o Swyddfa'r Cabinet). Mae GOV.UK yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth ac argaeledd darpariaeth gwasanaethau ar gyfer pob adran llywodraeth y DU a channoedd o gyrff hyd braich oll ar yr un wefan unigol. Mae GDS yn rhoi blaenoriaeth i gyfieithu cynnwys GOV.UK i'r Gymraeg yn seiliedig ar gryfder anghenion y defnyddwyr Cymraeg eu hiaith.

- 49** Caiff y cynnwys a'r safon olygyddol o fewn meysydd gwasanaeth a gwybodaeth prif ffrwd GOV.UK eu hysgrifennu a'u cyhoeddi gan GDS, ar ôl i arbenigwyr mewn adrannau ac asiantaethau wirio'r ffeithiau. Mae'r cynnwys hwn wedi'i baratoi ar gyfer y cyhoedd ac yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion y defnyddiwr. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda GDS i sicrhau bod gwybodaeth a deunydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gysylltiedig â'r agweddau o'n busnes

¹⁰ Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn gweithio'n agos â Swyddfa Cymru i sicrhau bod ymchwil o ansawdd sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr yn sail i'r deunydd Cymraeg sydd ar GOV.UK er mwyn cyflwyno gwasanaeth sy'n fwy syml, eglur a chyflymach i ddefnyddwyr. Mae hefyd yn galluogi adrannau'r llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n cyhoeddi deunydd ar GOV.UK i gyhoeddi deunydd Cymraeg yn unol â gofynion eu Cynlluniau Iaith Gymraeg unigol.

- matters of major significance to Great Britain as a whole
- matters of a particular interest in Wales

Official notices and public notices

- 47** All official notices and public notices published or posted in public places in Wales will be issued bilingually or in both Welsh and English language versions.

Digital services, website and information

- 48** All government department websites have been merged into the GOV.UK website which is managed by the Government Digital Service¹⁰ (GDS), part of the Cabinet Office). GOV.UK collects and publishes information and availability of service provision from every UK government department and hundreds of arms-length bodies together in a single place. GDS prioritises translation of GOV.UK content into Welsh based on the strength of Welsh-language users' needs.

- 49** Content and editorial standards within the service and information 'mainstream' areas of GOV.UK is written and published by GDS, following fact-checking by specialists in departments and agencies. This content is aimed at the general public and based on evidence of user need. MoJ will work with GDS to ensure that MoJ information and material relating to the most-used aspects of our business and services is available in both Welsh and English within this GOV.UK

¹⁰ GDS works closely with the Wales Office to ensure that the Welsh language content on GOV.UK is underpinned by high quality user research that provides a simpler, clearer and faster service for users. It also gives government departments and other organisations which publish material on GOV.UK the ability to publish Welsh-language content in line with the requirements of their individual Welsh Language Schemes.

a gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf ar gael yn Gymraeg a Saesneg, o fewn y deunydd 'prif ffrwd' ar GOV.UK.¹¹

- 50** Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa ddeunydd 'adrannol a pholisi' ar GOV.UK sydd angen ei gyfieithu; trefnu cyfieithiad o ansawdd da; a chadw'r deunydd Cymraeg yn gywir ac yn gyfredol.
- 51** Byddwn yn cyhoeddi deunydd Cymraeg ar gyfer meysydd 'adran a pholisi' corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar GOV.UK, fel sy'n ofynnol dan ein Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd swyddogion yn defnyddio'r system sgorio ar gyfer cyfieithu ffurflenni a dogfennau electronig a welir yn Atodiad B a C y Cynllun hwn. Bydd ein Prawf Effaith ar y Gymraeg a ddyluniwyd yn ddiweddar hefyd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar wrth lunio polisïau ac ymgynghoriadau, gan gynnwys eu cyfieithu, yn seiliedig ar dystiolaeth am yr effaith ledled Cymru.
- 52** Gellir canfod gwybodaeth am ganllawiau hygyrchedd gwasanaethau GDS ar: <https://www.gov.uk/service-manual/helping-people-to-use-your-service/making-your-service-accessible-an-introduction>
- 53** Wrth gynllunio unrhyw wefannau newydd, neu ail-ddatblygu ein gwefannau cyfredol, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg' a'r nodyn cyngor ar 'Egwyddorion Meddalwedd Dwyieithog' ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o ran datblygu gwefannau.
- 54** Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg, byddwn yn gwneud hynny ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg pan fydd y dyddiad cau yn caniatáu hynny.

¹¹ Pan fydd sefydliadau'r llywodraeth, fel y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn dymuno cyhoeddi deunydd 'prif ffrwd' Cymraeg ar GOV.UK, gellir defnyddio ffurflen gymorth Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, sydd ar gael ar: www.gov.uk/guidance/contact-the-government-digital-service/request-a-thing#welsh-language-translation

'mainstream' content.¹¹

- 50** MoJ is responsible for deciding which 'departmental and policy' content on GOV.UK needs translating; arranging high-quality translation; and keeping the Welsh content accurate and up to date.
- 51** For MoJ's corporate website content under the 'department and policy' areas of GOV.UK we will publish Welsh language content in accordance with our Welsh Language Scheme. Officials will apply the scoring system for translating electronic forms and documents given in Annexes B and C of this Scheme. Our recently designed Welsh Impact Test will also help ensure early consideration of Welsh language is given to policy proposals and consultations, including their translation, based on evidence of impact within and across Wales.
- 52** Information on GDS service accessibility guidelines can be found at: <https://www.gov.uk/service-manual/helping-people-to-use-your-service/making-your-service-accessible-an-introduction>
- 53** When designing any new websites, or redeveloping our existing websites, MoJ corporate HQ will take into account the Welsh Language Commissioner's guidance on 'Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations' and the advice note on the Principles of Bilingual Software and any other guidance issued by the Welsh Language Commissioner with regard to developing websites.
- 54** Where a Welsh version of a publication

¹¹ When government organisations like MoJ wish to publish 'mainstream' GOV.UK content in Welsh, GDS has a support form which is available at: www.gov.uk/guidance/contact-the-government-digital-service/request-a-thing#welsh-language-translation

Mewn achosion eithriadol lle nad yw hyn yn bosib (er enghraifft, newidiadau gweinidogol funud olaf i'r polisi), bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio cyhoeddi fersiynau Cymraeg cyn gynted â phosib ar ôl hynny ac yn bendant o fewn 10 diwrnod gwaith.

Technoleg gwybodaeth

55 Dyma yw safbwynt y Weinyddiaeth Cyfiawnder o ran technoleg iaith Gymraeg:

- wrth i ni ddatblygu a darparu systemau a chynnyrch TG newydd neu ddiweddarau'r rhai cyfredol, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol o ran y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru
- byddwn yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol
- byddwn yn gweithredu'r egwyddor cydraddoldeb cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol
- wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau technoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg
- cyfrifoldeb y maes busnes perthnasol yw cynnwys y platfformau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Trefniadau gweinyddol

56 Mae nifer o ddarpariaethau Cymraeg eisoes wedi'u hymgorffori i weithgareddau beunyddiol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a bellach yn rhan hanfodol o'n prosesau 'busnes fel arfer'. Bydd yr adran yn parhau i ddatblygu darpariaethau Cymraeg angenrheidiol fel y nodir yn y cynllun hwn a lle mae'r gweithgareddau gweinyddol a gefnogir yn gyfredol, bydd darpariaethau iaith Gymraeg yn parhau i gael eu hymgorffori i'r gweithgareddau hynny.

is posted, we will do so at the same time as the English language version where the deadline permits. In exceptional cases where this is not possible (for example last minute ministerial changes to the policy), MoJ will aim for the Welsh versions to be posted as soon as possible thereafter and certainly within 10 working days.

Information technology

55 MoJ Technology takes the following position on Welsh language technology:

- as we develop and deliver new IT systems and products or update old ones we will assess the linguistic requirements in respect of services provided to the public in Wales
- we will promote and facilitate the use of Welsh so far as it appropriate in the circumstances and reasonably practical
- we will implement the principle of equality so far as it appropriate in the circumstances and reasonably practical
- when we develop or procure MoJ Technology systems we will take into account the Welsh Language Commissioner's Bilingual Software Guidelines and Standards
- responsibility for the content of IT platforms (as opposed to the associated technology) belongs to the relevant business area

Administrative arrangements

56 Many Welsh language provisions have already been incorporated into MoJ daily activities and have become an integral part of 'business as usual' processes. The department will continue to develop necessary Welsh language provisions as identified under this scheme and where the administrative activities supported are ongoing, then the Welsh language provisions will continue to be incorporated into those activities.

57 Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn disgwyl parhau i ddefnyddio'r Uned Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru. Os nad yw'r UIG yn gallu cwrdd ag anghenion ceisiadau penodol neu'r galw am wasanaethau, bydd yn defnyddio Cyfarwyddiaeth Fasnachol Rheoli Contractau y Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau gwasanaethau darparwr allanol yn unol â rheoliadau caffael y llywodraeth. Gall hyn gynnwys darparwr a benodir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddarparu gwasanaethau iaith lle mae'r UIG yn hapus bod y gwasanaethau hynny'n cwrdd â'u gofynion.

58 Mae Uned Iaith Gymraeg (UIG) GLITEM yng Nghaernarfon yn darparu gwasanaeth cyfieithu proffesiynol i GLITEM, a holl rannau teulu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gais. Mae'r UIG hefyd yn delio â rhywfaint o waith allanol. Dylunnir yr holl ddogfennau a gyfieithir yn yr UIG mewn fformat dwyieithog neu fel adlewyrchiad o'r ddogfen Saesneg. Mae'r uned yn cyfieithu dogfennau a llythyrau, yn ogystal â darparu gwasanaeth ehangach o ran hwyluso cyfieithu adroddiadau, ffurflenni, taflenni gwybodaeth a deunydd arall ar gyfer y Weinyddiaeth Cyfiawnder a rhai o'n hasiantaethau.

59 Mae'r UIG hefyd yn darparu gwasanaeth dylunio proffesiynol ar gyfer ystod o gyhoeddiadau sydd angen eu cyfieithu i'r Gymraeg gan gynnwys dogfennau 'Word', dogfennau PDF 'darllen yn unig', fersiynau'r rhyngwryd/mewnryd, dogfennau rhyngweithiol a fersiynau ysgrifenedwy – lle mae defnyddwyr yn gallu llenwi rhannau o'r dogfennau.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan bartïon eraill

60 Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod trefniadau a chontractau gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun

57 MoJ corporate HQ expects to continue to use the HMCTS Welsh Language Unit (WLU) for translation services in Wales. In the event the WLU is unable to meet the requirements of a request, or the demand for their services, it will use MoJ's Commercial and Contract Management Directorate to secure the services of an external supplier in line with government procurement regulations. This may include the use of the MoJ's appointed supplier for language services where the WLU are satisfied those services meets their requirements.

58 The WLU in Caernarfon provide a professional translation service to HMCTS, and all parts of the MoJ family on request. The WLU also deals with some external work. All documents translated in the WLU are designed in a bilingual format or as a mirror image of the English document. The unit translates documents and letters, as well as providing a wider service in facilitating the translation of reports, forms, information leaflets and other materials for MoJ and some of our agencies.

59 The WLU also provides a professional design service on a range of publications requiring Welsh translation including word documents, PDF 'read-only' documents, internet/intranet versions, interactive documents and writable versions – where users can complete parts of documents.

Services delivered on behalf of the MoJ by other parties

60 MoJ corporate HQ will ensure that arrangements and contracts with third parties that relate to the provision of services to the public in Wales are

hwn a'u bod yn cael eu gweithredu'n unol â hynny.

61 Bydd Arweiniad Rheoli Contractau a Masnach y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod yr Adran yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, neu gynllun cymwys y gangen gyflawni briodol, ar gyfer pob contract newydd, lle disgwylir i wasanaethau gael eu darparu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a/neu siaradwyr Cymraeg yn Lloegr. Byddwn yn sicrhau bod cytundebau neu drefniadau gyda thrydydd partion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau perthnasol y Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan.

62 Mae'r canllawiau ar ofynion tendrau, ynghyd â thelerau ac amodau safonol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'u diwygio i adlewyrchu'n fwy eglur y dylai'r gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder adlewyrchu – pan fo'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir – gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. O ganlyniad, manylir ar y gofynion iaith Gymraeg penodol hynny, sy'n berthnasol i'r gwasanaethau, yn y contract.

63 Mae telerau ac amodau safonol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys gofynion ar y contractwr i lunio adroddiadau ynghylch cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gwasanaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Dyrannu grantiau

64 Bydd disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n gwneud cais am nawdd neu gymorth grant ar gyfer gweithgareddau sy'n golygu darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru ddatgan yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Ymgorfforir hyn wedyn yn un o amodau'r grant.

consistent with the terms of this scheme and are implemented accordingly.

61 MoJ Commercial and Contract Management Directorate will ensure compliance with the Welsh Language Act 1993 and the MoJ's Welsh Language Scheme (WLS), or the applicable scheme of the appropriate delivery arm, for all new contracts, where public facing services are to be provided in Wales and/or to Welsh speakers in England. Any agreements or arrangements we make with third parties will be consistent with the relevant parts of this scheme when those agreements or arrangements relate to the provisions of services to the public in Wales. This will include services which are contracted out.

62 Guidance on the tender requirements and the MoJ's standard terms and conditions have been amended to reflect more clearly that services delivered on behalf of the MoJ, should reflect – where relevant to the services to be delivered – the Welsh Language Scheme requirements. Accordingly, those particular Welsh language requirements relevant to the services will be specified in the contract.

63 The MoJ standard terms and conditions include requirements on the contractor to report on compliance with any service obligations relating to the Welsh language.

Allocation of grants

64 Any organisation which applies for sponsorship or grant aid for activities which involve the delivery of service to people in Wales, will be expected to address in their applications, where appropriate, how they intend to provide those services in Welsh as well as English. This will then be incorporated as one of the funding conditions.

Fframwaith grantiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

65 Mae Bwrdd Grantiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer dyrannu grantiau, gan gynnwys cyfanswm y swm sydd ar gael ac unioni'r grantiau â blaenoriaethau strategol yr Adran. Hysbysir y mwyafrif o grantiau drwy wefan gaffael y Weinyddiaeth Cyfiawnder – Emptoris. Er mwyn hysbysu darpar gynigwyr, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n cyd-fynd â phob hysbysiad yn amlinellu pryd a ph'un a fydd ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn gymwys. Yn achos gwobrwyo grantiau, a lle bo'n briodol, hysbysir derbynnydd y grant o ofynion HMPPS/Y Weinyddiaeth Cyfiawnder y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw, gan gynnwys lle mae naill ai Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu HMPPS yn gweithredu gofynion priodol Deddf yr Iaith Gymraeg.¹²

HMPPS/MoJ grants framework

65 The HMPPS/MoJ Grants Board oversees the processes to allocate grants, including the overall sum on offer and aligning the grants to the department's strategic priorities. The majority of grants are advertised through the MoJ's procurement website, Emptoris. To inform prospective bidders, the description document that accompanies each advertisement will outline whether and when Welsh Language Act considerations apply. When awarded, and if appropriate, the grant recipient will be made aware of the HMPPS/MoJ requirements with which they are expected to comply, including where the respective MoJ or HMPPS Welsh Language Scheme gives effect to applicable Welsh Language Act requirements.¹²

¹² Yn 2015 mi ofynnodd a chafodd Rhaglen Effeithlonrwydd Grantiau Swyddfa'r Cabinet ganiatâd, gan holl adrannau'r llywodraeth i gyhoeddi Cofrestr Grantiau'r Llywodraeth. Bydd y Gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar data.gov.uk

¹² In 2015 the Cabinet Office's Grants Efficiency Programme sought and received consent from all government departments to publish the Government Grants Register. This will be published on data.gov.uk

6. Gweithredu, monitro a chyflwyno adroddiadau ar y cynllun

Gweithredu'r cynllun

- 66** Cyn gynted ag y bydd y cynllun diwygiedig wedi'i gadarnhau, caiff ei gyhoeddi ar dudalennau perthnasol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar GOV.UK fel cyhoeddiad corfforaethol. Hefyd, bydd copi o'r cynllun hwn ar gael i holl staff pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar fewnrwyd y Weinyddiaeth. Pan fydd y cynllun yn cael ei lansio, byddwn yn hysbysu'r holl staff drwy gynnwys eitem fer ar e-gylchlythyr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ei gyhoeddi ar ein Mewnrwyd, a chynnwys eitem yn yr e-gylchlythyr i'n holl Gyrff ac Asiantaethau Hyd Braich. Byddwn yn hysbysu Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn ogystal â Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru. Yn ogystal, byddwn yn hysbysu Pwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac aelodau Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- 67** Byddwn hefyd yn sicrhau bod arweiniad ar gael i'r staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch:
- delio â gohebiaeth yn y Gymraeg
 - defnyddio'r Uned Iaith Gymraeg GLITEM yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a threfniadau amgen
 - pryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân
 - goblygiadau'r cynllun hwn i'r rheiny sy'n prynu gwasanaethau gan drydydd partïon.

Monitro'r cynllun

- 68** Yn gyffredinol, bydd y cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y daw yn

6. Implementing, monitoring and reporting

Implementing the scheme

- 66** Once the revised Scheme is finalised, it will be published on the relevant MoJ pages of GOV.UK as a corporate publication. A copy of this Scheme will also be available to all MoJ corporate HQ staff via the MoJ intranet. When the scheme is launched we will inform all staff by way of a short item in the MoJ's e-newsletter, an announcement on our Intranet, and an item in the e-newsletter to our Arm's Length Bodies and Agencies. We will inform the secretariat of the Lord Chancellor's Standing Committee on the Welsh Language and also the Justice Wales Network. Additionally, we will inform MoJ's Executive Committee and also members of the MoJ Welsh Language Co-ordinators Group.
- 67** We will also ensure guidance is available to staff in MoJ corporate HQ on:
- handling Welsh language correspondence
 - using the HMCTS Welsh Language Unit and the alternatives
 - when to consider issuing bilingual or both Welsh and English language documents, publications and publicity material
 - the implications of this scheme for those procuring services from third parties

Monitoring the scheme

- 68** This scheme will generally be operative from the date of implementation. MoJ

effeithiol. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff sy'n ymwneud â llunio polisi a gwasanaethau corfforaethol eraill yn ymwybodol o ofynion y cynllun hwn ac yn eu hystyried wrth gyflawni eu gwaith. Cyflawnir hyn drwy:

- monitro gweithrediad y cynllun hwn, drwy adroddiadau ar weithgareddau, monitro a chynnydd a gyflwynir yn y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn Atodiad D
- ymgynghori'n rheolaidd â'r Coleg Barnwrol i sefydlu pa arweiniad hyfforddi sydd ei angen ar gyfer y farnwriaeth sy'n gwrandao achosion yng Nghymru, ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg

69 Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, byddwn yn monitro'r meysydd a nodir yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad D, yn enwedig:

- Cynllunio ymlaen: bob blwyddyn bydd Cydlynnydd cynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn atgoffa'r meysydd busnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r angen i ystyried gweithredu'r cynllun hwn wrth lunio polisiau, caffael gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill. Gofynnir i feysydd corfforaethol adrodd ar y gwaith sy'n deillio o ofynion y cynllun hwn, gan gynnwys beth maent wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwaith cyfredol, a gwaith newydd y'u disgwylir yn ystod y flwyddyn bresennol
- Ein hwyneb cyhoeddus: bydd uned y wasg a chyhoeddiadau'r adran yn monitro, cofnodi a chyflwyno adroddiadau blynyddol ynghylch cyflwyno'r cyhoeddiadau, ffurflenni a datganiadau'r wasg dwyieithog hynny a gynhyrchir a/neu a ddosberthir ganddo; bydd gofyn i bob uned fusnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder fonitro, cofnodi a llunio adroddiadau cyfnodol

corporate HQ will make sure that all staff involved in policy-making and other corporate services are aware of the requirements of this scheme and take them into account in the conduct of their work. This will be done by:

- monitoring implementation of this scheme, through the activities, monitoring and progress reports set out in the revised Action Plan at Annex D
- regularly liaising with the Judicial College to determine what guidance on training may be needed by the judiciary who hear cases in Wales in relation to the use of the Welsh language

69 To help ensure the scheme is implemented effectively in MoJ corporate HQ, we will monitor the areas set out in Action Plan D. In particular:

- forward planning: each year the MoJ Scheme co-ordinator will remind business areas in MoJ corporate HQ of the Welsh Language Scheme and the requirement to consider the application of this scheme to policy, procurement and other corporate areas. All corporate areas will be asked to report on work arising from the requirements of this scheme, including what they delivered over the last year, work that is ongoing, and new work expected to arise during the current year
- our public face: the departmental press and publications unit will monitor, record and report annually on the number of bilingual publications, forms and press notices it produces and/or distributes – each business unit in MoJ corporate HQ will be required to monitor, record and report periodically on bilingual documentation or notices which it issues and which are not produced and/or distributed by the press

ynghylch dogfennau neu hysbysiadau dwyieithog y mae'n eu cyhoeddi ac nad ydynt yn cael eu cynhyrchu a/ neu ddsbarthu gan uned y wasg a chyhoeddiadau

- Asiantau a chontractwyr: bydd hi'n ofynnol bod pob uned fusnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n defnyddio asiantau neu gontractwyr i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn monitro a chyflwyno adroddiad blynyddol ynghylch cydymffurfriad yr asiantau neu gontractwyr â thelerau Iaith Gymraeg eu cytundebau neu drefniadau.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

70 Yn yr achos gyntaf, ymdrinnir â chwynion ynghylch darpariaeth gwasanaeth iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan y swyddfa a wnaeth, naill ai yn sgil ei gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd, achosi'r gŵyn yn y lle cyntaf. Ewch i <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/complaints-procedure> i gael mwy o wybodaeth ynghylch proses gwyno'r adran.

71 Os nad yw'r ymateb i'r gŵyn yn cael ei ystyried yn foddhaol, gellir cyfeirio cwynion i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn cydweithredu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn datrys cwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

72 Y pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiad, gŵyn neu awgrym ar gyfer gwelliant gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r cynllun yw: Cydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ.

Cyhoeddusrwydd

73 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun diwygiedig hwn, ar ôl ystyried sylwadau terfynol Comisiynydd y Gymraeg, fel a ganlyn:

and publications unit

- agents and contractors: each business unit in MoJ corporate HQ that uses agents or contractors to deliver services to the public in Wales will be required to monitor and report annually on the agents' or contractors' compliance with the Welsh language terms of their agreements or arrangements

Complaints and suggestions for improvement

70 Complaints relating to the level of MoJ's Welsh language service delivery will in the first instance be made to the office whose actions or inactions gave rise to the complaint. Information relating to the department's complaints process can be found at <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/complaints-procedure>

71 If the response to the complaint is not considered to be satisfactory, complaints can be referred to the Welsh Language Commissioner's Office. We will cooperate with the Welsh Language Commissioner in order to resolve complaints – and during any investigations held under Section 17 of the Welsh Language Act 1993.

72 The point of contact for any enquiry, complaint or suggestion for improvement from members of the public concerning the scheme is: The Welsh Language Scheme Co-ordinator, Ministry of Justice, 102 Petty France, London SW1H 9AJ.

Publicity

73 Once the final Welsh Language Commissioner's comments have been considered, we will publicise this revised Scheme in the following ways:

- drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg
- drwy gyhoeddi'r cynllun ar dudalen y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK
- drwy sicrhau bod y cynllun ar gael fel dogfen rad ac am ddim gan ein Swyddfa'r Wasg ac ar ein gwefan
- bydd copïau o'r cynllun ar gael mewn Braille neu mewn fformatau gwahanol, ar gais
- rhoddir cyhoeddusrwydd helaeth i'r cynllun yn fewnol ac yn allanol o fewn y sector gweinyddu cyfiawnder.

Cyflwyno adroddiadau ar y cynllun

74 Bob blwyddyn, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n amlygu'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Adroddiad yn helpu i asesu ein perfformiad o ran gweithredu'r Cynllun. Ar ôl tair blynedd, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adolygu gweithrediad y cynllun hwn ac yn trafod cynnydd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

75 Bob blwyddyn, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi copi o'n Hadroddiad Monitro Blynyddol, a gyflwynir i'r Comisiynydd, ar ein mewnwyd. Byddwn hefyd yn anfon copi o'r adroddiad at Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg ac i Rwydwaith Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Cyfrifoldeb am gydlynu'r cynllun

76 Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddi yn gyfrifol am gydlynu'r cynllun corfforaethol hwn ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

- by issue of a press notice
- by publishing the scheme on the MoJ page of the GOV.UK website
- by making the scheme available as a free document from our Press Office and on our website
- copies of the scheme will be made available in Braille or alternative formats on request
- the scheme will be widely publicised internally and externally within the administration of justice sector

Reporting on the scheme

74 Each year MoJ corporate HQ will provide the Welsh Language Commissioner with an Annual Monitoring Report that highlights the progress we have made during the year. The report will help assess our performance against the Scheme's actions. After three years, MoJ corporate HQ will review the operation of the Scheme and discuss progress and future priorities with the Welsh Language Commissioner.

75 MoJ corporate HQ will publish a copy of our Annual Monitoring Report supplied to the Commissioner, on our intranet each year. We will also send a copy of the report to the Secretariat of the Lord Chancellor's Standing Committee on the Welsh Language and to the MoJ Network of Welsh Language Coordinators.

Responsibility for co-ordination of the scheme

76 Currently, Analytical Services Directorate has responsibility for the coordination of this corporate scheme on behalf of MoJ.

Atodiad A: Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a chyrrff cyhoeddus

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio mewn partneriaeth â 22 o asiantaethau a chyrrff cyhoeddus:

- 5 asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n darparu ein gwasanaethau allweddol, sydd oll yn meddu ar eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain.
 - Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol
 - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
 - Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
 - Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
 - Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
 - 6 corff cyhoeddus anadrannol gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
 - Cafcass
 - Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
 - Comisiwn Penodiadau Barnwrol*
 - Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol*
 - Y Bwrdd Parôl*
 - Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr*
- * Mae gan y sefydliadau hyn eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain
- 11 o bartneriaid cyrrff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
 - Pwyllgorau Ymgynghorol Ynadon Heddwch
 - Cyngor Cyfiawnder Sifil
 - Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil
 - Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol
 - Cyngor Cyfiawnder Teuluol
 - Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu
 - Panel Ymgynghorol Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa
 - Comisiwn y Gyfraith
 - Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai
 - Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr
 - Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlys

I gael mwy o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations#ministry-of-justice>

Annex A: Partnership with agencies and public bodies

The Ministry of Justice works in partnership with 22 agencies and public bodies:

- MoJ partners five Executive Agencies, through which our key services are delivered, all of which have their own Welsh Language Scheme:
 - Criminal Injuries Compensation Authority (CICA)
 - HM Courts and Tribunals Service (HMCTS)
 - HM Prison and Probation Service (HMPPS)
 - Legal Aid Agency (LAA)
 - Office of the Public Guardian (OPG)
- MoJ partners six executive non-departmental public bodies:
 - Cafcass
 - Criminal Cases Review Commission
 - Judicial Appointments Commission*
 - Legal Services Board*
 - Parole Board*
 - Youth Justice Board for England and Wales*

* These organisations have their own Welsh Language Scheme
- MoJ partners 11 advisory non-departmental public bodies:
 - Advisory Committees on Justices of the Peace
 - Civil Justice Council
 - Civil Procedure Rule Committee
 - Criminal Procedure Rule Committee
 - Family Justice Council
 - Family Procedure Rule Committee
 - Independent Advisory Panel on Deaths in Custody
 - Law Commission
 - Prison Service Pay Review Body
 - Sentencing Council for England and Wales
 - Tribunal Procedure Committee

More information can be found at: <https://www.gov.uk/government/organisations#ministry-of-justice>

Atodiad B: System sgorio ar gyfer cyfieithu ffurflenni

Pwrpas yr arweiniad hwn yw cyflwyno dull¹³ i gynorthwyo staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder i benderfynu a ddylid paratoi fersiwn Cymraeg o'r ffurflenni a gyhoeddir ganddynt neu beidio, ac os felly, p'un a ddylid eu paratoi fel ffurflenni dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac yn ddull na ellir ei haddasu. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i gefnogi penderfyniadau ynglŷn â chyfieithu ffurflenni a gyhoeddir yn y Gymraeg. Dylai staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddefnyddio'r arweiniad i gefnogi'u penderfyniadau, gan gynnwys y rhesymau dros beidio â defnyddio'r system sgorio hon.

Pan fo'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio ag un o'i ganghennau cyflawni (neu Adran arall y Llywodraeth – OGD) i gynhyrchu ffurflenni ar y cyd, bydd cynllun iaith Gymraeg y gangen gyflawni neu OGD sydd â'r ymrwymiad cryfaf yn cael ei ffafrio.

Dyma'r system sgorio y dylid ei defnyddio ar gyfer cyfieithu ffurflenni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i'r Gymraeg:

1. Nifer y copïau i'w hargraffu mewn blwyddyn:

1 – 500: sgôr = 1

500 – 5,000: sgôr = 2

dros 5,000: sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged:

y cyhoedd: sgôr = 15

grŵp penodol o'r cyhoedd sgôr = 10

unigolion yn cynrychioli meysydd penodol sgôr = 0

3. A fydd y ffurflen yn ymwneud â maes pwnc neu ran o Gymru o ddiddordeb penodol yng nghyswllt y Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, pobl hŷn, amaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau – neu a fydd wedi'i hanelu'n llwyr at ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg?

bydd: sgôr = 10

na fydd: sgôr = 0

4. Am ba hyd y defnyddir y ffurflen? (Ailargraffu'r ffurflen; ni ddylid ystyried mân newidiadau fel newid y flwyddyn ar frig y ffurflen, neu newid rhan o'r ffurflen i adlewyrchu rheolau newydd, yn ddiwedd oes yr hen fersiwn).

0 – 6 mis: sgôr = 1

6 mis – 2 flynedd: sgôr = 2

dros 2 flynedd: sgôr = 4

¹³ Mae'r dull sgorio wedi'i seilio ar system a ddyluniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus ers sefydlu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Annex B: Scoring system for translating forms

This guidance offers a method¹³ to assist MoJ staff in deciding whether or not a Welsh version of the forms published by them should be prepared, and if so, whether as bilingual forms or as separate Welsh and English versions.

The scoring system is not intended to be a prescriptive or inflexible method. Rather, it should be used to support decisions on Welsh translation for published forms. MoJ staff should apply the guidance to support their decisions, including justifying any departure from the scoring system.

Where MoJ works with one of its main delivery arms (or other government department – OGD) to jointly produce forms, the Welsh language scheme of the delivery arm or OGD with the stronger commitment will prevail.

The Welsh translation scoring system for MoJ forms to be used is as follows:

1. The number of copies to be printed in a year:

1 – 500:	score = 1
500 – 5,000:	score = 2
over 5,000:	score = 4

2. The target audience:

the general public	score = 15
a particular sector of the public	score = 10
individuals representing specific fields	score = 0

3. Will the form deal with a subject area or a part of Wales of particular interest with regard to Welsh? For example, work involving young people, the elderly, agriculture, education, sport or the arts – or will it be aimed exclusively at areas with a high percentage of Welsh speakers?

yes:	score = 10
no:	score = 0

4. For how long will the form be used? (Reprinting the form; small changes such as changing the year at the top of the form, or changing part of the form to reflect new rules, should not be considered as the end of the life cycle of the old version).

0 – 6 months::	score = 1
6 months – 2 years:	score = 2
over 2 years	score = 4

¹³ The scoring method is based on the system designed by the Welsh Language Board, which has been used successfully since the inception of MoJ's Welsh Language Scheme.

5. Nifer y geiriau yn y ffurflen:

0 – 500:	sgôr = 4
500 – 1000:	sgôr = 3
1000 – 5000:	sgôr = 2
dros 5000:	sgôr = 1

6. Nifer y tudalennau yn y ffurflen:

1 – 5:	sgôr = 4
5 – 10:	sgôr = 3
10 – 20:	sgôr = 2
dros 20:	sgôr = 1

Dylid adio sgôr pob un o'r 6 cwestiwn (1–6) a chymharu'r cyfanswm â'r canlynol i benderfynu beth i'w wneud:

Penderfyniad ynghylch llunio fersiwn **bapur** o'r ffurflen:

Cyfanswm y sgôr: 0 – 14: mae'r sgôr hon yn awgrymu nad oes angen paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen

Cyfanswm y sgôr: 15 – 18: mae'r sgôr hon yn awgrymu y gellid paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)

Cyfanswm y sgôr: dros 18: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen

Penderfyniad ynghylch llunio fersiwn **electronig** o'r ffurflen (i'w chynnwys ar wefan y corff ayb).
Anwybyddwch gwestiynau 1 a 6 wrth gyfrif o'r sgôr hon:

Sgôr: 0 – 11: nid oes angen paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen

Sgôr: 12 – 14: mae'r sgôr hon yn awgrymu y gellid paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)

Sgôr: dros 14: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg o'r ffurflen

Penderfyniad ynghylch cyhoeddi ffurflen **yn ddwyieithog**, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell y dylid cychwyn â rhagdybiaeth o blaid ffurflenni dwyieithog, yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws ei weinyddu (o ran rheoli stoc a dosbarthu) o gymharu â darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae i hyn hefyd y fantais o fodloni anghenion teuluoedd cymysg eu hiaith,

5. Number of words in the form:

0 – 500:	score = 4
500 – 1000:	score = 3
1000 – 5000:	score = 2
over 5000:	score = 1

6. Number of pages in the form:

1 – 5:	score = 4
